

# NODYN I ATGOFFA—RHEOLAU YSGOL PWYSIG

Ein nod yw gwreiddio tegwch a chydraddoldeb ym mhob agwedd o'n rheolau a'n polisïau. Gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn yn cadw at y canlynol:

**Gemwaith:**

Nid ydym yn caniatáu i ddisgyblion wisgo gemwaith i'r ysgol. Os yw plentyn yn gwisgo clustdlysau, mae angen i'r rhain fod yn stydiau yn unig. Os oes gan blentyn wers Ymarfer Corff, bydd angen tynnu'r clustdlysau allan neu eu gorchuddio â phlastr.

**Colur:**

Nid ydym yn caniatáu unrhyw fath o golur, gan gynnwys farnais ewinedd, ewinedd ffug ac ati.

**Esgidiau:**

Gofynnwn i ddisgyblion wisgo esgidiau du addas i'r ysgol. Dydy sodlau ac esgidiau fel fflip fflops ddim yn addas.

**Polisi dŵr wrth ddesg**:

Rydym yn gweithredu polisi 'Dŵr wrth y ddesg' a gall disgyblion ail-lenwi eu poteli yn ystod y dydd. Dim ond dŵr yr ydym yn ei ganiatáu gan ein bod yn 'Ysgol Iach' achrededig. Peidiwch â gadael i'ch plentyn ddod â diodydd fel 'Prime' neu ddiodydd egni i'r ysgol. Byddwn yn cymryd y diodydd hyn oddi wrth eich plentyn ac yn rhoi dŵr iddynt. Byddant yn cael eu dychwelyd ar ddiwedd y dydd.

**Ffonau Symudol:**

Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ysgol. Cysylltwch â ni os hoffech i'ch plentyn gario ei ffôn symudol os yw'n teithio'n annibynnol i'r ysgol. Bydd y ffonau'n cael eu storio'n ddiogel tan amser gartref.

Diolch am eich cydweithrediad.